

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Llunio Dawnsiau

Llunio Dawnsiau

Mae’r adran hon yn edrych ar sut y gall athrawon gynllunio a gwneud eu dawnsiau eu hunain a sut y gallant gynnwys disgyblion yn y broses honno fel y gall y disgyblion lunio eu dawnsiau eu hunain yn y pen draw.

Symbyliad ar gyfer dawns

Fel rheol, daw’r ysbrydoliaeth ar gyfer dawns o’r ymateb i symbyliad penodol neu ystod o symbyliadau.

Gellir cael symbyliadau:

- Clywedol ♦ ymateb i gerddoriaeth, geiriau, cerddi
- Syniadaethol ♦ ymateb i gysyniadau neu faterion
- Cinesthetig ♦ ymateb i batrymau symud
- Cyffyrddol ♦ ymateb i deimlad prop, gwrthrych, arteffact
- Gweledol ♦ ymateb i luniau, darluniau, paentiadau, dyluniadau, clipiau fideo neu arteffactau.



Mae’n bwysig sicrhau bod y disgyblion yn profi cymaint o symbyliadau ag sy’n bosibl er mwyn diwallu anghenion disgyblion sy’n dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Mae’r tabl canlynol yn dangos sut y gallai’r symbyliadau amrywiol wella’r agweddau lluosog ar ddeallusrwydd a nodwyd gan Gardner (1986).

Deallusrwydd lluosog Gardner	Symbyliad
Ieithyddol	Clywedol a syniadaethol
Mathemategol rhesymegol	Syniadaethol a chinesthetig
Gofodol gweledol	Gweledol, syniadaethol a chyffyrddol
Cerddorol	Cerddoriaeth
Cinesthetig y corff	Cinesthetig
Rhyngbersonol	Gellir ei gyflawni gan ddisgyblion sy’n ystyried ymateb fel grwp i symbyliad
Mewnol, personol	Gellir ei gyflawni gan ddisgybl unigol sy’n ystyried ei ymateb personol i symbyliad

Mae unedau gwaith y Dull AGChY o Addysgu Dawns yn CA2 wedi’u llunio mewn ymateb i ystod o wahanol symbyliadau. Mae enghreifftiau o’r symbyliadau hyn wedi’u cynnwys ym mhob uned lle bo hynny’n bosibl. Mae cynlluniau unedau ychwanegol i’w gweld ar wefan y Dull AGChY o Addysgu Dawns, ac mae’r rhain wedi’u llunio gan ddefnyddio

symbyliadau gwahanol.

Gan fod dawnsio yn ffordd o fynegi’ch hun, efallai y bydd yn ddefnyddiol i ddawnswyr feddwl am eiriau sy’n gysylltiedig ♦’r symbyliad neu’u hymateb i’r symbyliad. Mae dawns yn cyfleu neu’n mynegi syniadau, ystyr, hwyliau, teimladau ac emosiynau trwy gyfrwng symudiadau.

Ar ♦l i’r dawnsiwr (dawnsiwr) feddwl am syniad dawns, mae’n rhaid iddo (iddynt) droi’r syniad hwnnw’n ddawns.

Strwythurau dawns

Gellir strwythuro dawns mewn amryw o ffyrdd:

Naratif ♦ mae’r strwythur hwn yn dilyn rhediad stori, ac efallai y bydd ystyr penodol yn cael ei gyfleu trwy gyfrwng y stori honno. Mae *ballets* traddodiadol wedi’u llunio ar ffurf naratif.



Bwrdd stori ♦ mae’r strwythur hwn yn rhannu’r ddawns yn adrannau, ac mae pob adran yn delio ag agwedd wahanol ar y syniad dawns. Ceir tair adran - y dechrau, y canol a’r diwedd. Gellir defnyddio’r strwythur hwn i gyfleu cysyniadau neu syniadau. Y gwahaniaeth rhwng y strwythur naratif a’r strwythur bwrdd stori yw bod yr adrannau’n dilyn trefn benodol mewn strwythur naratif tra bod modd rhoi’r adrannau mewn unrhyw drefn wrth ddefnyddio’r dull creu stori h.y. trefn ddigyswllt neu drefn resymegol. Er enghraifft, mae Uned 13 yn cynnwys dawns sydd wedi’i hysbrydoli gan losgfynyddoedd. Mewn dilyniant rhesymegol, efallai mai’r cymal ar y pwnc ‘Rymblan’ fyddai’n ffurfio adran gychwynnol y ddawns, efallai mai’r cymal ar y pwnc ‘Ffrwydro’ fyddai’n ffurfio adran ganol y ddawns, ac efallai mai’r cymal ar y pwnc ‘Lafa’ fyddai’n ffurfio adran olaf y ddawns. Ar y llaw arall, mewn bwrdd stori digyswllt, efallai mai ‘Ffrwydro’, ‘Lafa’, ‘Rymblan’ fyddai’r drefn. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith y gall dawns fod yn rhywbeth haniaethol yn ogystal ag yn rhywbeth cynrychiadol neu bendant. Mae’r Dull PESS o Addysgu Dawns yn defnyddio’r dull creu stori i helpu disgyblion i gynllunio, datblygu a myfyrio ynghylch eu dawnsiau. Gweler y Cerdyn Adnoddau - y Dull Creu Stori.

Patrwm ♦ mae’r strwythur hwn wedi’i seilio ar yr arfer o ailadrodd cymalau o symudiadau. Mae’r strwythur yn un haniaethol, h.y. nid yw’n cyfleu ystyr penodol. Gall y patrwm fod wedi’i seilio ar strwythur y gerddoriaeth. Ceir nifer o wahanol fathau o batrymau:

- **AB** (gelwir y patrwm hwn yn ffurf ddeuaidd weithiau). Mae AB yn cynnwys dau gymal hunangynhwysol a gwahanol.
- **ABA** (gelwir y patrwm hwn yn ffurf deiran weithiau). Mae’r patrwm hwn yn ddatblygiad o’r patrwm AB. Mae’r dawnsiwr yn ailadrodd cymal A ar ♦l cymal B. Gall y cymal A a ailadroddir fod yn union yr un peth ♦’r cymal A cyntaf neu gall fod yn ddatblygiad ohono.
- **Pennill-Corws** (gelwir y patrwm hwn yn ‘rondo’ weithiau). Mae’r patrwm hwn yn debyg i’r patrwm ABA ond gellir ei ailadrodd yn barhaus. Mae cymal A yn debyg i’r corws mewn c♦n, a chaiff ei ailadrodd ar ♦l pob cymal neu bennill gwahanol, er enghraifft, ABACADAE ac ati.

Ar ♦l i’r dawnsiwr benderfynu pa strwythur y bydd ei ddawns yn ei ddilyn, rhaid iddo ddechrau troi ei syniadau’n ddawns trwy greu cymalau neu fotiffau. Gellir cyfnewid cymalau neu fotiffau, ac mae’r rhain yn ffurfio adrannau byr o’r ddawns a gaiff eu cysylltu ♦’i gilydd i greu’r ddawns gyfan. Mae’r rhan fwyaf o’r dawnsiau a gaiff eu cynnwys yn y Dull AGChY o Addysgu Dawns yn CA2 yn defnyddio’r strwythur bwrdd stori. Felly, er mwyn hybu dealltwriaeth, bydd y strwythur hwn yn cael ei ddefnyddio i ddangos sut mae llunio dawnsiau.

Dechrau, canol a diwedd

Mae angen i'r disgyblion benderfynu beth fydd yn cael ei gynnwys ym mhob un o'r adrannau hyn. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r disgyblion ystyried popeth sy'n gysylltiedig ♦'u syniad dawns. Gellid defnyddio thesawrws i wella'r ymarfer hwn. Bydd yr ymarfer hwn yn helpu'r disgyblion i ddewis a dethol y pwnc y maent am ymdrin ag ef yn eu dawns a nodi beth i'w gynnwys ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd eu dawns. Gall fod yn ddefnyddiol defnyddio gair neu eiriau allweddol i enwi pob adran fel bod y disgyblion yn gwybod yn union pa adran o'r ddawns y maent yn gweithio arni neu'n cyfeirio ati. Mae enwi'r adrannau yn helpu'r disgyblion i gofio symudiadau gan fod gan bob cymal o'r ddawns deitl byr. Dyma'r egwyddor a ddefnyddir ym maes prosesu gwybodaeth lle caiff y wybodaeth ei rhannu'n bytiau bach.



Adrannau unigol

Unwaith eto, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r disgyblion ystyried popeth sy'n gysylltiedig ♦'r adran benodol hon. Gellid defnyddio thesawrws i wella'r ymarfer hwn. Dylid defnyddio'r geiriau a'r cysyniadau allweddol hyn i greu cardiau fflach i'w harddangos yn y man gwaith fel y gall y disgyblion gyfeirio atynt. Gallai'r disgyblion wneud hyn fel gwaith cartref. Gallai'r disgyblion ddarlunio neu baentio'r cardiau fflach ♦ llaw, neu gallent eu paratoi ar gyfrifiadur. Gallai'r cardiau fflach gynnwys geiriau, lluniau, diagramau neu gyfuniad o'r tri.

Cynnwys pob adran

Yn ystod y cam hwn, gallai'r disgyblion ddefnyddio'u syniadau i lunio dawns yn fyrfyfyr (ar y pryd - heb baratoi), ond efallai y bydd hyn yn rhy anodd i nifer o ddisgyblion dibrofiad: efallai y byddai'r disgyblion hyn yn elwa ar dreulio amser yn meddwl am beth i'w gynnwys cyn iddynt ddechrau dawnsio. Wrth feddwl am yr hyn y gallent ei gynnwys, dylai'r disgyblion ystyried y penawdau canlynol a chyfeirio at y Cardiau Adnoddau perthnasol i'w helpu i ddewis y cynnwys mwyaf priodol ar gyfer eu dawns:

Beth

Mae 'beth' yn cyfeirio at y gweithrediadau dawns sylfaenol ♦ teithio, llonyddwch, neidio, troi ac ystumio. Gweler y Cardiau Adnoddau - Gweithrediadau Dawns Sylfaenol.

Ble

Mae 'ble' yn cyfeirio at ble yn yr ystafell y bydd y gweithrediadau sylfaenol yn cael eu perfformio. Mae angen ystyried pob agwedd ar amrywiaeth ♦ cyfeiriad, lefel, cyflymder, si♦p, maint a llwybr. Gweler y Cardiau Adnoddau - Amrywiaeth.

Gyda

Mae 'gyda' yn cyfeirio at beth neu pwy y bydd y dawnsiwr yn dawnsio ag ef. A fydd y ddawns yn cynnwys propiau? A fydd y dawnsiwr yn dawnsio ar ei ben ei hun, mewn deuawd, mewn triawd, mewn pedwarawd neu grwp mwy o faint? Yn ystod y cam hwn, dylai'r disgyblion feddwl am drefniannau, patrymau a chydberthnasau gofodol. Gweler y Cardiau Adnoddau - Trefniannau, Patrymau a Chydberthnasau Gofodol.



Sut

Mae angen ystyried dwy brif agwedd dan y pennawd 'sut':

a) Sicrhau bod y gweithrediadau dawns yn cyfleu'r syniad dawns, yr ystyr neu'r emosiynau'n gywir ac yn effeithiol. Er enghraifft, os yw'r syniad dawns yn ymdrin ♦ marwolaeth (fel sy'n digwydd yn y cymal ar y pwnc 'Lafa' yn y ddawns ar losgfynyddoedd), ni ddylai'r symudiadau/gweithrediadau fod yn ysgafn, yn rhydd, yn sionc ac yn gyflym. Yn hytrach,

dylai'r symudiadau fod yn araf, yn barchus ac yn drist, a dylent gael eu perfformio ar y llawr a dangos ♦ i meddwl. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r disgyblion benderfynu beth yn union y maent am ei gyfleu i'w cynulleidfa a beth yw'r ffordd orau o wneud hynny. Caiff yr agwedd hon ei mireinio'n barhaus wrth i'r disgyblion wneud cynnydd.

b) Pa elfennau dawns o'r continwwm dawns y mae'r disgyblion yn credu sydd fwyaf priodol ar gyfer eu syniad dawns? Mae'r agweddau hyn yn cynnwys: unfurfiaeth, cop ♦ o, arwain a dilyn, canon, adlewyrchu, gweithrediadau cyferbyniol, gweithred ac adwaith, gweithrediadau cyffwrdd syml, datblygu motiff, gweithrediadau cyffwrdd a symudiadau codi syml. Gweler yr adran - Dyfeisiau Coreograffig. Gall y disgyblion ddewis defnyddio un o'r agweddau hyn neu gyfuniad ohonynt ym mhob adran o'u dawns.

Mae 'i' yn cyfeirio at ba gyfeiliant fydd yn cael ei ddefnyddio. Rhaid i'r disgyblion benderfynu pa gyfeiliant fydd yn cael ei ddefnyddio i ddawnsio iddo. Efallai mai'r gerddoriaeth oedd y symbyliad i'r ddawns, ac mae hyn yn golygu bod y broses o ddewis cyfeiliant yn hawdd iawn. Y gerddoriaeth oedd y symbyliad ar gyfer Uned 12 ♦ Ymestyn a Chleician. Fodd bynnag, os na chafodd y ddawns ei symbylu gan y gerddoriaeth, mae rhai dewisiadau'n agored i'r disgyblion:

- Gwneud ymchwil a dewis cerddoriaeth sydd wedi'i chyfansoddi a'i pherfformio gan eraill: gall fod yn un trac neu gellir defnyddio nifer o draciau wedi'u cymysgu ♦ i gilydd
- Cyfansoddi, perfformio a recordio eu cerddoriaeth eu hunain
- Gwneud ymchwil a defnyddio effeithiau sain sydd wedi'u cynhyrchu gan eraill
- Cyfansoddi, perfformio a recordio eu heffeithiau sain eu hunain
- Creu synau gan daro rhannau o'r corff wrth ddawnsio neu recordio cyfeiliant o'r fath ymlaen llaw i'w chwarae yn ystod y perfformiad
- Adrodd, llafarganu neu ganu wrth ddawnsio neu recordio cyfeiliant o'r fath ymlaen llaw i'w chwarae yn ystod y perfformiad
- Dawnsio mewn tawelwch
- Neu unrhyw gyfuniad o'r dewisiadau uchod.

Mae cynnwys y disgyblion yn y broses o ddewis a chreu'r gerddoriaeth yn ffordd dda iawn o wella'u cymhelliad. Dylid gweithredu'r broses hon ar gyfer pob adran o'r ddawns. Efallai y bydd y disgyblion am greu braslun o bob adran cyn cychwyn y ddawns a'i fireinio wrth iddynt fynd yn eu blaen. Ar y llaw arall, efallai y byddant am ystyried pob adran yn unigol wrth iddynt ei chreu fel eu bod yn adolygu'r adran gyntaf cyn symud ymlaen i'r ail adran. Mae'n bwysig i'r disgyblion ddeall y gallai fod angen diwygio'u cynlluniau yn unol ♦ u gwaith myfyrio a gwerthuso. Nid yw cynllun y ddawns yn derfynol ♦ ei ddiben yw helpu'r disgyblion i lunio eu dawns: disgwylir y bydd y disgyblion yn diwygio eu cynlluniau fel eu bod yn rhoi ystyriaeth i bethau sy'n digwydd wrth iddynt ddawnsio a syniadau eraill sy'n deillio o'u dawns. Y peth pwysig yw sicrhau bod dehongliadau gwahanol yn cael eu hystyried a bod y disgyblion yn cael eu hannog i fod yn greadigol. Wrth i'r disgyblion ymglyfarwyddo ♦ r broses a magu hyder wrth berfformio, byddant am greu eu syniadau dawns cychwynnol wrth iddynt fynd yn eu blaen yn ogystal ♦ u cynllunio.



Y dull chwe cham

Mae'r dull chwe cham yn cyd-fynd yn dda ♦ r dull hwn o lunio dawnsiau: mae'r disgyblion yn cael cyfle i adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol, archwilio syniadau a chysyniadau newydd, creu cymalau dawns, perfformio'r rhain o flaen cynulleidfa a gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Gellir datblygu pob adran o'r ddawns gan ddefnyddio'r dull chwe cham. Gweler Defnyddio'r dull chwe cham am ragor o wybodaeth. Mae'r cynlluniau gwersi wedi'u llunio gan ddefnyddio'r dull hwn.

Adnodd cynllunio rhyngweithiol ar gyfer llunio dawnsiau

Mae'r adran hon wedi rhoi ystyriaeth fanwl i bob cam yn y broses o lunio dawnsiau. Disgwylir i athrawon ddeall y broses

hon  nid ei chofio. Mae'r adnodd cynllunio rhyngweithiol ar gyfer llunio dawnsiau wedi'i greu er mwyn helpu athrawon i greu eu fframweithiau dawns eu hunain fel y gallant ddatblygu eu hunedau a'u cynlluniau gwaith eu hunain sy'n addas i'r ysgol, y disgyblion a hwy eu hunain fel unigolion. Mae'r adnodd cynllunio rhyngweithiol ar gyfer llunio dawnsiau yn adnodd ar-lein, felly bydd angen i chi gael mynediad i'r rhyngrwyd i'w ddefnyddio. Cliciwch yma i gael golwg ar yr Adnodd Cynllunio Rhyngweithiol ar gyfer Llunio Dawnsiau

